

Cyngor Bro Morgannwg

Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad

Paratowyd y Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad gan ystyried Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfarfodydd aml-leoliad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru Mehefin a Gorffennaf 2023 ac a ddiwygiwyd Awst 2023.

Mae'r Polisi hwn yn ychwanegol at Reolau Gweithdrefn y Cyngor fel y'u cynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Diweddarwyd – Gorffennaf 2026



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Beth yw Cyfarfod Aml-Leoliad?	1
3. Hysbysiadau, Agendâu, Adroddiadau, Hysbysiadau Penderfynu, Cofnodion a Phapurau Cefndir.....	2
4. Sut y Cynhelir Cyfarfodydd Aml-Leoliad (CAL)?.....	3
5. Sut Galla i Gymryd Rhan neu Arsylwi ar Gyfarfod o'r Cyngor?	4
6. Cworwm	5
7. Tynnu'n Ôl o Gyfarfod oherwydd Buddiant Rhagfarnus.....	6
8. Pleidleisio mewn cyfarfodydd	6
9. Sut yr ymdrinnir â Materion Eithriedig?	7
10. Presenoldeb Hybrid / O Bell – A yw Aelod yn "Bresennol"?	7
11. Cwestiynau Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Cyngor a Gweithdrefnau Siarad Cyhoeddus	8
12. Ffurfioldeb a Phreifatrwydd mewn Cyfarfodydd.....	8
13. Moesau mewn Cyfarfodydd O Bell / Hybrid.....	9
14. Cymorth a Hyfforddiant Swyddogion	10
15. Gofynion Seilwaith.....	11
16. Calendr Cyfarfodydd	11
17. Gwahoddiadau i Gyfarfodydd ar gyfer Cyfranogwyr Gweithredol.....	12
18. Cofnodi Presenoldeb.....	12
19. Darllediadau Cyfarfodydd.....	12
20. Mynychu Cyfarfodydd yn Ddiogel.....	14
21. Mynychu Cyfarfodydd o Dramor.....	16
22. Hysbysiad Preifatrwydd.....	16
23. Cyfeiriadau Gwe.....	21

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau terfynol, (Mehefin a Gorffennaf 2023 ac a ddiwygiwyd Awst 2023) sef y [Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar Ddemocratiaeth o fewn Prif Gyngorau](#) sy'n amlinellu'r gofynion y mae angen i'r Cyngor eu bodloni wrth hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad.
- 1.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y ddyletswydd i ymestyn y gofynion i ddarlledu cyfarfodydd. Er bod y ddeddfwriaeth darlledu yn ymwneud yn bennaf â chyfarfodydd y Cyngor Llawn, mae'r diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth yn ymestyn i Bwyllgorau statudol eraill y Cyngor ac ar hyn o bryd maent yn aros am gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn yr [ymateb i'r ymgynghoriad](#).
- 1.3. Felly mae'r Polisi hwn wedi'i ddiwygio gan ystyried y canllawiau hyn a phrofiadau'r Cyngor ers sefydlu'r polisi. Mae sefyllfa bresennol y Cyngor ynglŷn â darlledu cyfarfodydd yn mynd ymhellach na dyheadau'r ddeddfwriaeth bresennol a'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

2. Beth yw Cyfarfod Aml-Leoliad?

- 2.1. Cyfarfod Aml-Leoliad (CAL) yw cyfarfod nad yw ei gyfranogwyr i gyd yn yr un lle ffisegol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cyfranogwyr yn bresennol yn lleoliad y cyfarfod tra bod eraill yn ymuno o'u cartref neu leoliad o bell arall.
- 2.2. O dan [Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021](#), mae darpariaethau Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i gynnull Cyfarfodydd Aml-Leoliad er mwyn galluogi mwy o hygyrchedd a chyfranogiad y cyhoedd ym mhroses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Leol.
- 2.3. Roedd Adran 47 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud a chyhoeddi trefniadau sy'n sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd Awdurdodau Lleol trwy ddefnyddio unrhyw offer neu gyfleuster arall sy'n galluogi cwrdd â chyfranogwyr nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd a gallu siarad â'i gilydd a'u clywed.
- 2.4. Dim ond gallu siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd y mae'n rhaid i gyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd ei wneud, ond ar gyfer cyfarfodydd y mae'n ofynnol iddynt gael eu darlledu mae Adran 46 y Ddeddf mae'n rhaid iddynt hefyd allu gweld ei gilydd a chael eu gweld gan ei gilydd. Gweler adran 10 am ragor o fanylion.

- 2.5. Wrth ystyried trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad neu bresenoldeb O Bell, bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried canllawiau a/neu reoliadau Llywodraeth Cymru a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- 2.6. Mae Adran 2 Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru'n nodi nifer o egwyddorion i arwain Awdurdodau wrth ddatblygu eu trefniadau cyfarfodydd, sef tryloywder, hygyrchedd, ymddygiad da, y Gymraeg, anghenion lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Canllawiau hefyd yn cadarnhau y dylai'r trefniadau cyfarfodydd gael eu hadlewyrchu yn y rheolau gweithdrefn a nodir yng [Nghyfansoddiad y Cyngor](#).

3. Hysbysiadau, Agendâu, Adroddiadau, Hysbysiadau Penderfynu, Cofnodion a Phapurau Cefndir

- 3.1. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys ar yr Hysbysiad o'r Cyfarfod (Agenda) yn nodi sut y gall Aelodau'r Pwyllgor, Swyddogion a'r Cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod.
- 3.2. Mae'r [Ddeddf](#) yn ei gwneud yn ofynnol i Hysbysiadau o Gyfarfodydd a gwybodaeth electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd (h.y. gan gynnwys hysbysiadau o [gyfarfodydd](#), [agendâu](#), [adroddiadau](#) a phapurau cefndir) gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a rhaid iddynt barhau i fod ar gael ar ffurf electronig am o leiaf chwe blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.
- 3.3. Bydd agendâu, adroddiadau, Hysbysiadau Penderfynu a Chofnodion cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cyhoeddi ar [wefan yr Awdurdod](#). Bydd nifer fach o gopïau papur ar gael i aelodau'r cyhoedd sy'n mynd i gyfarfod yn gorfforol. Mae papurau agenda ar gael o leiaf bum diwrnod clir (sy'n cynnwys penwythnosau) cyn cyfarfod.
- 3.4. Rhaid i Hysbysiadau Penderfynu o gyfarfod (a ddaeth i rym o dan y Ddeddf ym mis Mai 2021) ddangos penderfyniadau a wnaed, enwau'r rhai oedd yn bresennol, ymddiheuriadau; datganiadau o fuddiant a chanlyniad unrhyw bleidleisiau a rhaid eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod o fewn saith diwrnod gwaith i'r cyfarfod gael ei gynnal, gan gynnwys diwrnod y cyfarfod.
- 3.5. Mae papurau cefndir yn wahanol i Atodiadau y cyfeiriwyd atynt eisoes o fewn adroddiad cyhoeddedig ac wedi'u hatodi iddo. Mae papurau cefndir yn ffynonellau gwybodaeth eraill sy'n gysylltiedig â phwnc yr adroddiad, sy'n datgelu ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad (neu ran bwysig ohono) yn seiliedig arnynt, neu y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad, ond heb eu hatodi iddo. Mae hyperddolenni i'r

Papurau Cefndir yn adran gefndir adroddiadau cyhoeddedig y Cyngor, ac felly maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd drwy wefan y Cyngor.

- 3.6. Nid oes gofyniad mwyach i bostio Hysbysiadau o Gyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor, er bod Cyngor y Fro wedi addasu ei arfer i gynorthwyo'r cyhoedd, gyda hysbysiad parhaol sy'n cynnwys cod QR i galendr y Cyngor o gyfarfodydd Pwyllgor yn parhau i fod ar gael.
- 3.7. Fodd bynnag, rhaid i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd os cynhelir cyfarfodydd yn ffisegol ac mae'n ofyniad hefyd i'r Cyngor sicrhau bod mynediad i'r cyhoedd yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau o'r cyhoedd na allant gael gafael ar ddogfennau. Er enghraifft, trwy ddarparu mynediad at gyfrifiaduron, copïau cyfyngedig o ddogfennau mewn cyfarfodydd neu, trwy ffi, sicrhau bod dogfennau ar gael i'w harchwilio.

4. Sut y Cynhelir Cyfarfodydd Aml-Leoliad (CAL)?

- 4.1. CAL yw cyfarfodydd y Cyngor neu ei Bwyllgorau nad yw eu cyfranogwyr i gyd yn yr un lle ffisegol. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath yn y moddau canlynol:
- Hybrid – gyda rhai cyfranogwyr yn ymuno trwy ddulliau o bell a rhai yn mynychu'n gorfforol yn yr un lle ag eraill;
 - O Bell yn Llwyd – lle mae'r holl gyfranogwyr yn cymryd rhan trwy ddulliau o bell.
- 4.2. Cyfarfodydd Hybrid – byddant yn cael eu cynnal a'u darlledu'n fyw (ac eithrio materion cyfrinachol) drwy ddarparwr datrysiadau cyfarfodydd hybrid y Cyngor, o'r Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, gyda rhai unigolion yn mynychu'n gorfforol yn Siambr y Cyngor.
- 4.3. Cyfarfodydd Cwbl O Bell – byddant yn cael eu cynnal a'u darlledu'n fyw (ac eithrio ar gyfer materion cyfrinachol) trwy ddarparwr datrysiadau cyfarfodydd hybrid y Cyngor.
- 4.4. Bydd cyfarfodydd cwbl ffisegol fel arfer yn cael eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri a'u darlledu trwy ddarparwr datrysiadau cyfarfodydd Hybrid y Cyngor (ac eithrio ar gyfer materion cyfrinachol).
- 4.5. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Adran 19 o [Gyfansoddiad y Cyngor](#) ac Ymddygiad Aelodau – Yr Egwyddorion yn Atodiad 1 i Adran 19.
- 4.6. Rhaid i aelodau sicrhau eu bod wedi'u paratoi yn ddigonol i fynychu holl gyfarfodydd y Cyngor y mae angen eu presenoldeb ar eu cyfer, gan ystyried gofynion technegol a ffisegol. Ewch i adrannau 15 ac 20 am fwy o wybodaeth.

5. Sut Galla i Gymryd Rhan neu Arsylwi ar Gyfarfod o'r Cyngor?

Diffiniadau:

- 5.1. Diffinnir cyfranogwr mewn cyfarfod â Chyngor Bro Morgannwg o fewn y canllawiau statudol fel person sy'n cymryd rhan weithredol yn y cyfarfod drwy wahoddiad. Gall fod yn Aelod Etholedig, yn Aelod Cyfetholedig (gyda neu heb hawliau pleidleisio), yn un o swyddogion yr Awdurdod, yn berson sy'n rhoi tystiolaeth i Bwyllgor fel tyst, yn berson sydd wedi cofrestru i siarad mewn Pwyllgor (yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor), yn rhywun sy'n cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn (o dan weithdrefn y Cyngor) neu'n gynrychiolydd o sefydliad allanol ar Bwyllgor.
- 5.2. Diffinnir arsylwr mewn cyfarfod yn y Canllawiau Statudol fel aelod o gynulleidfa, neu fel arall, sy'n nodi pwy all fod yn yr un ystafell lle cynhelir cyfarfod neu y gallai fod yn arsylwi trwy ddulliau o bell.

Trefniadau Cyffredin ar gyfer Pob Cyfranogwr Gweithredol:

- 5.3. Bydd yr holl gyfranogwyr gweithredol, boed yn Aelodau, Swyddogion, tystion, neu siaradwyr cofrestredig yn derbyn dolen gwahoddiad unigol drwy e-bost, waeth a yw'r cyfarfod yn Hybrid neu O Bell. Mae'r ddolen hon yn unigryw i'r derbynnydd ac ni ddylid ei rhannu.
- 5.4. Dylai Cyfranogwyr Gweithredol ymuno â'r cyfarfod yn brydlon a sicrhau bod ganddynt yr offer a'r cysylltedd angenrheidiol i gymryd rhan yn llawn. Gweler adran 15.

Aelodau Etholedig a Chyfetholedig:

- 5.5. Pan fyddant yn cael eu penodi am y tro cyntaf, bydd Aelodau Etholedig a Chyfetholedig yn cwblhau arolwg i gadarnhau eu dewisiadau iaith ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau y maent yn Aelod ohonynt.
- 5.6. Anogir Aelodau Etholedig a Chyfetholedig sy'n mynychu'n bersonol i ddod â'u dyfeisiau Cyngor ac offer ategol fel gwefrwyr i gael mynediad at bapurau agenda yn electronig drwy'r adran Hyb Pwyllgorau ar MemberNet.

Swyddogion a Thystion Arbenigol:

- 5.7. Gall swyddogion fynychu fel cyfranogwyr gweithredol drwy wahoddiad.
- 5.8. Pan wahoddir tystion arbenigol i fynychu cyfarfodydd, bydd eu dewis iaith yn cael ei nodi gan y Gwasanaethau Democrataidd pan wneir trefniadau presenoldeb.

Aelodau'r Cyhoedd – Arsylwyr:

- 5.9. Gellir arsylwi ar gyfarfodydd hybrid ac wyneb yn wyneb o'r oriel gyhoeddus yn Siambr y Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig yn y Barri, ac eithrio materion cyfrinachol.
- 5.10. O ran arsylwi ar gyfarfodydd o Bell neu Hybrid ar-lein, bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu gwyllo cyfarfod drwy ddefnyddio'r ddolen i'r cyfarfod ar wefan y Cyngor.
- 5.11. Gall aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd i wyllo cyfarfodydd o bell ofyn am gael mynd i sesiwn wyllo gyhoeddus mewn lleoliad addas yn y Swyddfeydd Dinesig drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf un diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod, e.e. os cynhelir y cyfarfod ar ddydd Llun, dylid hysbysu'r Gwasanaethau Democrataidd erbyn y dydd Gwener blaenorol fan pellaf.

Aelodau'r Cyhoedd – Siaradwyr:

- 5.12. Mae'n ofynnol i aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad mewn cyfarfod o'r Cyngor lle caniateir siarad yn gyhoeddus, gwblhau'r broses gofrestru ar-lein o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Dylid nodi dewisiadau iaith hefyd wrth gofrestru.
- 5.13. Rhaid cyflwyno cwestiynau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn unol â gweithdrefn gyhoeddedig y Cyngor.

6. Cworwm

- 6.1. Cworwm cyfarfod yw chwarter yr Aelodau sy'n pleidleisio oni nodir fel arall yng [Nghyfansoddiad y Cyngor](#). Bydd y cworwm yn cynnwys y rhai sy'n mynychu drwy unrhyw ddull; ar yr amod eu bod yn gallu siarad a chael eu clywed gan ei gilydd ynghyd â gweld a chael eu gweld gan eraill wrth gymryd rhan weithredol yn y cyfarfod.
- 6.2. Mae'r mynychwyr yn cael eu monitro gan Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ac, os yw'r niferoedd sy'n bresennol yn disgyn yn is na'r cworwm sy'n ofynnol, bydd y Cadeirydd yn gwybod a bydd y cyfarfod yn dod i ben ar unwaith.
- 6.3. Mae'n ofynnol i Aelodau Etholedig anfon ymddiheuriadau am absenoldeb i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu arweiniol cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, gall y Gwasanaethau Democrataidd dderbyn ymddiheuriadau hwyr hyd at gyhoeddi'r Hysbysiad Penderfynu ar gyfer y cyfarfod.
- 6.4. Mae gan lwyfannau cyfarfodydd a weithredir gan y Cyngor swyddogaeth rhestr cyfranogwyr sy'n dangos i'r Cadeirydd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu pa gyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'r cyfarfod ar unrhyw adeg benodol.

7. Tynnu'n Ôl o Gyfarfod oherwydd Buddiant Rhagfarnus

- 7.1. Os bydd Aelod Etholedig yn datgan Buddiant Rhagfarnus mewn cyfarfod Ffisegol, Aml-Leoliad neu o Bell, rhaid i'r Aelod dynnu'n ôl o'r cyfarfod drwy adael yr ystafell neu'r cyfarfod ar-lein oni bai ei fod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Fodd bynnag, os gall Aelodau o'r cyhoedd siarad mewn cyfarfod, gall yr Aelod Etholedig hefyd barhau i gyflwyno'i sylwadau ond rhaid iddo adael ar ôl i'w sylwadau gael eu rhoi. (I gael rhagor o wybodaeth am ddatganiadau buddiannau mewn cyfarfodydd, ewch i Adran 19.3 [Cyfansoddiad y Cyngor](#)).
- 7.2. Gwahoddir yr Aelod Etholedig yn ôl i'r cyfarfod pan fydd yr eitem sy'n ymwneud â'r buddiant rhagfarnus wedi dod i ben. Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n cefnogi'r cyfarfod yn hysbysu'r Aelod Etholedig i ailymuno â'r cyfarfod drwy ddull y cytunwyd arno naill ai drwy e-bost, neges destun neu alwad ffôn i ailymuno â'r cyfarfod. Os na fydd y person hwnnw'n ymateb i'r alwad i ail-ymuno, bydd y cyfarfod yn parhau hebdo, ar yr amod bod cworwm ganddo.

8. Pleidleisio mewn cyfarfodydd

- 8.1. Lle nad oes anghydweld mewn cyfarfod bydd rhai penderfyniadau yn cael eu gwneud heb i bleidlais gael ei gofnodi'n ffurfiol.
- 8.2. Pan fo angen pleidleisio, bydd hyn yn digwydd naill ai'n electronig, drwy alwad cofrestr neu gymysgedd o'r ddau pe bai anawsterau technegol yn codi wrth bleidleisio'n electronig.
- 8.3. Bydd yr holl ganlyniadau pleidleisio yn cael eu cyhoeddi naill ai gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu cyn symud i'r eitem agenda nesaf.
- 8.4. Os bydd Aelod yn gadael yr ystafell heb ddychwelyd, ni fydd Aelod arall yn cael darparu ei bleidlais. Fodd bynnag, os nad yw'r ddyfais bleidleisio neu'r sain ar y gliniadur ar gael, gall yr Aelod ei hun ddefnyddio'r cyfleuster negeseuon yn y llwyfan cyfarfod o bell i gofnodi ei bleidlais i'r Cadeirydd.
- 8.5. Os gofynnir am bleidlais wedi'i recordio yn unol â pharagraff 4.23.5 o [Gyfansoddiad y Cyngor](#), fel y nodir yn 8.2 uchod, bydd pleidleisio naill ai'n digwydd yn electronig, trwy alwad cofrestr neu gymysgedd o'r ddau pe bai anawsterau technegol yn codi wrth bleidleisio'n electronig.
- 8.6. Ym mhob math o gyfarfod a gynhelir drwy ddatrysiaid cyfarfodydd hybrid y Cyngor, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn electronig a bydd enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn

erbyn neu'n ymatal yn cael eu cofnodi'n awtomatig a bydd y canlyniadau yn cael eu harddangos ar y sgrin.

- 8.7. Os ceir anawsterau technegol yn ystod cyfarfod, os bydd pleidlais yn cael ei chynnal yn ffisegol, bydd hyn yn cael ei chynnal gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n bresennol yn y Cyngor Llawn ac ar gyfer unrhyw gyfarfod arall gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.
- 8.8. Os na ellir cysylltu ag Aelod i ddechrau er mwyn rhoi ei bleidlais, bydd y swyddog yn dychwelyd at yr Aelod ac, yn dilyn ail ymgais, os na dderbynnir ymateb a bod cworwm yn y cyfarfod o hyd, ystyrir nad yw'r Aelod yn bresennol ar gyfer y bleidlais honno.
- 8.9. Mae'r gweithdrefnau pleidleisio uchod yn ychwanegol at y gweithdrefnau a amlinellir ym mharagraff 4.23 o Gyfansoddiad y Cyngor.

9. Sut yr ymdrinnir â Materion Eithriedig?

- 9.1. Efallai na fydd rhywfaint o wybodaeth, yn unol â'r Ddeddfwriaeth, ar gael i'r cyhoedd. Gelwir hyn yn wybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (Rhan II). Pan gaiff y math hwn o wybodaeth ei ystyried mewn cyfarfod ffurfiol, caiff y dogfennau eu cyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor a dim ond i'r rhai sydd â hawl i'w gweld y maent ar gael. Fel arfer, trefnir materion o'r fath ar ddiwedd agenda er mwyn lleihau unrhyw anghyfleustra i arsylwyr y bydd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod cyn i'r eitemau gael eu hystyried. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r cyhoedd a'r wasg gael eu heithrio o'r cyfarfod (p'un a yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal mewn unrhyw ffordd) cyn parhau â'r agenda.
- 9.2. Bydd Cadeirydd y cyfarfod yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd y cyfarfod yn symud i sesiwn breifat (Rhan II). Rhaid i'r ffrwd byw ddod i ben cyn i unrhyw drafodaeth ar yr eitem ddechrau. Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn cadarnhau gyda'r Cadeirydd pan fydd y ffrwd byw wedi'i atal.
- 9.3. Rhaid i'r symud i Ran II gael ei gynnig a'i eilio gan Aelodau Etholedig y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n bresennol yn gofyn i unrhyw bersonau sy'n bresennol, na chaniateir iddynt aros ar gyfer sesiwn Rhan II adael.

10. Presenoldeb Hybrid / O Bell – A yw Aelod yn "Bresennol"?

- 10.1. Er mwyn cael ei ystyried yn bresennol, rhaid i'r Aelod allu siarad a chael ei glywed a gallu gweld a chael ei weld gan eraill os yw'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu, bydd hyn yn

cynnwys wrth ddatgan buddiannau. Mewn cyfarfod bydd y Swyddog Monitro a/neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn rhoi cyngor i'r Cadeirydd ar y penderfyniad lleol a bydd yn ystyried materion fel ymyriadau dros dro sy'n gysylltiedig â materion cysylltu. Bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol (gweler tudalennau 178-179 o'r [canllawiau statudol](#)).

10.2. Ni fydd unrhyw fethiant mewn technoleg / cysylltedd sy'n arwain at golli cyswllt Aelodau yn ystod y cyfarfod yn amharu ar unrhyw ran o'r trafodaethau nac unrhyw bleidlais a gymerir, ar yr amod bod cworwm yn parhau mewn cyfarfod. Gall Cadeirydd y Pwyllgor ohirio'r cyfarfod os yw'n briodol yn ei farn ef tra bod unrhyw broblemau technegol yn cael eu datrys.

10.3. Os yw Aelod wedi gadael ei feicroffon neu ei gamera ymlaen am gyfnod hir o ganlyniad i fethiant mewn technoleg, cysylltedd neu wall defnyddiwr, bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n cefnogi yn gallu tawelu neu dynnu'r Aelod oddi ar y sgrin er mwyn caniatáu i'r cyfarfod barhau yn ddidrafferth.

11. Cwestiynau Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Cyngor a Gweithdrefnau Siarad Cyhoeddus

11.1. Os yw aelod o'r cyhoedd neu sefydliad yn dymuno gofyn cwestiwn yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, rhaid iddynt roi gwybod am hyn yn unol â [gweithdrefn y Cyngor](#).

11.2. Gellir dod o hyd i weithdrefnau siarad cyhoeddus ar gyfer Pwyllgorau (lle mae gweithdrefnau ar waith) ar [wefan y Cyngor](#) hefyd.

12. Ffurfioldeb a Phreifatrwydd mewn Cyfarfodydd

12.1. Anogir cyfranogwyr sy'n ymuno â chyfarfodydd O Bell neu Hybrid (CAL) i gael mynediad i'r cyfarfod o leoliad sy'n rhydd rhag aflonyddwch ac sy'n cynnal rhywfaint o ffurfioldeb. Er bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ar y cyfan a gellir eu darlledu, mae dewis amgylchedd tawel a diogel yn helpu i sicrhau trafodion didrafferth ac ymgysylltiad parchus. Anogir defnyddio clustffonau hefyd.

12.2. Anogir cyfranogwyr i ddefnyddio effaith gefndirol addas. Mae cyfres o ddelweddau cefndir Corfforaethol ar gael i Aelodau Etholedig i'w defnyddio drwy'r Hyb Pwyllgorau. Atgoffir aelodau, gan y bydd y trafodion yn fyw, y bydd gwylwyr yn gallu gweld eu lleoliad o bell i bob pwrpas.

12.3. Atgoffir yr Aelodau Etholedig o'u cyfrifoldebau o dan God Ymddygiad yr Aelodau yn ystod cyfarfodydd ac yn arbennig wrth ystyried eitemau sydd wedi'u heithrio yn ystod cyfarfod.

Dylai Aelodau sicrhau na ellir eu clywed yn ystod trafodaethau ynghylch gwybodaeth gyfrinachol. Dylai Aelodau ystyried y defnydd o glustffonau a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd o'r fath.

13. Moesau mewn Cyfarfodydd O Bell / Hybrid.

13.1. Mae Ymddygiad Da (gweler tudalen 162) o [Ganllawiau Statudol ac Anstatudol](#)

[Llywodraeth Cymru](#) yn nodi, yn unol ag Egwyddorion Nolan, y dylai CAL fel gydag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall, ddangos safonau ymddygiad uchel.

13.2. Ychwanegwyd Egwyddorion Nolan fel offeryn statudol o fewn [Gorchymyn Ymddygiad Aelodau \(Egwyddorion\) \(Cymru\) 2001](#) ac mae'r rhain, fel y soniwyd i'w gweld yn Adran 19 Atodiad 1 o [Gyfansoddiad y Cyngor](#).

13.3. Dylai cyfranogwyr:

- Caniatáu digon o amser i baratoi ar gyfer y cyfarfod a rhedeg diweddariadau meddalwedd rheolaidd ar eu gliniadur Bro Morgannwg (trwy ei droi ymlaen a'i ddiffodd bob dydd);
- Sicrhau bod yr offer sy'n cael ei ddefnyddio wedi'i wefru'n ddigonol drwy gydol y cyfarfod neu ei fod wedi'i blygio i bwynt pŵer;
- Ymuno â'r cyfarfod o leiaf 15 munud cyn i'r cyfarfod ddechrau i wirio trefniadau sain a fideo;
- Gwisgo'n briodol ar gyfer y cyfarfod;
- Sicrhau bod eu henw a neu eu rôl, e.e. y Cynghorydd "John Williams" yn cael ei arddangos ar y sgrin;
- Defnyddio clustffonau, lle bo'n briodol, i osgoi sŵn cefndir;
- Defnyddio effaith cefndir lle bo hynny'n briodol;
- Sicrhau bod eu microffon yn fud os nad ydynt yn siarad;
- Sicrhau bod eu camera wedi'i ddiffodd pan nad ydynt yn cymryd rhan weithredol;
- Defnyddio'r cyfleuster sgwrsio yn briodol, gweler 13.4 isod;
- Parchu'r Cadeirydd ac eraill sy'n bresennol;
- Ymddwyn yn briodol a bod yn ystyriol o God Ymddygiad yr Aelodau.

13.4. Dylai mynychwyr o bell ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio sydd ar gael o fewn platfform y cyfarfod o bell dim ond er mwyn:

- Rhoi gwybod i'r Cadeirydd eu bod yn dymuno siarad;
- Cynghori'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu am unrhyw anawsterau technegol; neu

- Os yw eu sain yn methu, rhoi gwybod sut maent yn dymuno pleidleisio;
- Darparu ymddiheuriadau ar ran Aelodau Etholedig eraill;
- Nodi i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu eu bod yn dymuno rhoi datganiad buddiant ar lafar.

- 13.5. Ni ddylid defnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar gyfer trafodaethau gan fod yn rhaid i bob trafodaeth gael ei chynnal ar lafar yn y cyfarfod ar gyfer unigolion sy'n gwyllo'r cyfarfod a/neu'r recordiad o'r cyfarfod os gwneir recordiad.
- 13.6. Wrth ddefnyddio'r datrysiadau cyfarfodydd hybrid, mae'n ofynnol i Aelodau wasgu'r botwm "Codi Llaw" a fydd yn eu hychwanegu at y rhestr siarad a reolir gan y Cadeirydd a/neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.
- 13.7. O ran ymddygiad aflonyddgar, os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r person dan sylw (Adran 4.27 [Cyfansoddiad y Cyngor](#)). Os bydd yn parhau i darfu ar y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o'r cyfarfod.
- 13.8. O ran ymddygiad aflonyddgar gan Aelodau Etholedig, bydd y weithdrefn a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn berthnasol (gweler Adran 4.26).

14. Cymorth a Hyfforddiant Swyddogion

- 14.1. Bydd pob cyfarfod ffurfiol yn cael ei hwyluso naill ai gan Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu neu Swyddog Cabinet. Ei brif gyfrifoldebau yw:
- Sicrhau bod agendâu ar gael (o leiaf 5 diwrnod clir, sy'n cynnwys penwythnosau, cyn y cyfarfod);
 - Monitro presenoldeb a chynorthwyo unrhyw gyfranogwr i ymuno neu ail-ymuno â'r cyfarfod;
 - Hwyluso'r cyfarfod, y ffrwd byw, y pleidleisio a chymryd cofnodion y cyfarfod. (Cynhelir y pleidleisio yn y cyfarfod yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor ac yn unol ag Adran 8 y Polisi hwn).
- 14.2. Bydd manylion cyswllt y Swyddog Arweiniol yn cael eu nodi ar daflen flaen yr agenda ar gyfer y cyfarfod.
- 14.3. Gellir cyflwyno unrhyw anghenion neu geisiadau hyfforddi i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu Arbenigwr Digidol.
- 14.4. Bydd holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn derbyn hyfforddiant i allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhelir ar blatfform cyfarfodydd hybrid y Cyngor, boed hyn yn blatfform cyfarfod ar-lein neu offer yn Siambr y Cyngor.

14.5. Bydd cyfranogwyr eraill hefyd yn derbyn cymorth gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar sail ad hoc er mwyn cymryd rhan.

15. Gofynion Seilwaith

15.1. Bydd angen yr offer TGCh canlynol ar gyfranogwyr ar gyfer cyfarfodydd Hybrid ac o Bell:

- Meicroffon / Clustffonau;
- Camera – os caiff y cyfarfod ei ddarlledu;
- Mynediad sefydlog cyflym i'r rhyngwrwyd (gellir darparu cyngor ar y safonau gofynnol lle bo angen);
- Mynediad at borwr rhyngwrwyd modern;
- Mynediad at y platfform/ meddalwedd berthnasol sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y cyfarfod.

15.2. Mae gliniaduron a chlustffonau y Cyngor wedi'u darparu eisoes i'r holl Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig (a chanddynt hawliau pleidleisio) a dylid blaenoriaethu'r offer hyn ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd. **Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb pe bai Aelod yn dewis defnyddio dyfais bersonol ac yn dod ar draws materion cysylltedd cyn neu yn ystod cyfarfod y mae'n dymuno bod yn rhan ohono.**

16. Calendr Cyfarfodydd

16.1. Mae Calendr Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys amseroedd, yn cael ei gytuno gan y Cabinet yn flynyddol. Yna defnyddir y manylion yn y Calendr y cytunwyd arno i boblogi [tudalen we Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau](#) y Cyngor. Fodd bynnag, gall cyfarfodydd fod yn destun newid neu gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu cynnwys yn y Calendr gan Gadeirydd Pwyllgor a/neu'r Prif Weithredwr, yn ôl yr angen. I gael manylion am sut y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal, gofynnir i aelodau'r cyhoedd ddarllen y papurau agenda ar-lein pan fyddant wedi'u cyhoeddi cyn y cyfarfod (gweler Adran 3 uchod).

16.2. Yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol, bydd cyfle gan y Cyngor i bennu'r dyddiad a'r amser mwyaf addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd.

17. Gwahoddiadau i Gyfarfodydd ar gyfer Cyfranogwyr Gweithredol

- 17.1. Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon drwy e-bost at bawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod, a bydd y gwahoddiad yn nodi sut y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal.
- 17.2. Ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal ar ddatrysiad cyfarfod hybrid y Cyngor, bydd cyfranogwyr yn derbyn dolen unigryw i'w cyfeiriad e-bost (cyfeiriad e-bost safonol Bro Morgannwg i Aelodau Etholedig a Chyfetholedig). Sylwch fod y gwahoddiad yn unigryw i'r unigolyn ac ni ddylid ei anfon ymlaen at berson arall gan y bydd yn atal y derbynnydd gwreiddiol rhag cael mynediad i'r cyfarfod a bydd yn dangos ei fanylion a manylion ei rôl.
- 17.3. Cyn cyfarfodydd, bydd Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n cefnogi pob un o Bwyllgorau'r Cyngor yn cysylltu â siaradwyr cofrestredig a/neu dystion hefyd i roi cymorth os oes angen.
- 17.4. Cynghorir pawb sy'n cymryd rhan i gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn Democratic@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio 01446 709855 o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod os bydd angen cymorth arnynt cyn y cyfarfod.

18. Cofnodi Presenoldeb

- 18.1. Bydd presenoldeb pob Aelod Etholedig a Chyfetholedig yn cael ei gofnodi gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu neu'r Swyddog Cabinet sy'n rhoi cymorth mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Caiff y cofnodion hyn eu cyfuno a'u hychwanegu at Hysbysiad Penderfynu a chofnodion y cyfarfod. Mae Presenoldeb Aelodau Etholedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd.
- 18.2. Mae'n ofynnol i Aelodau roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw ymddiheuriadau cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal. Ewch i Adran 6 am ragor o wybodaeth.

19. Darllediadau Cyfarfodydd

- 19.1. Mae [Adran 46](#) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod cyfarfodydd Prif Gyngor yn cael eu darlledu'n fyw a'u bod ar gael i'w gwyllo'n electronig ac eithrio pan nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd (Rhan II – gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig). Bydd ffrwd byw y cyfarfodydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i archifo wedi hynny i'w wyllo yn y dyfodol. Mae'r canllawiau Statudol ac Anstatudol ar dudalen 160 yn nodi bod yn rhaid i Brif Gynghorau wneud trefniadau ar gyfer darlledu rhai cyfarfodydd yn fyw a sicrhau bod darllediadau ar gael yn electronig wedyn.

- 19.2. Nid yw darlledu cyfarfodydd yn disodli cofnod ffurfiol y cyfarfod ac ynghyd â'r penderfyniadau a wnaed, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i gadw ar ffurf copi papur yn unol â pholisi cadw am chwe blynedd y Cyngor.
- 19.3. [Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Gyngorau](#) (Rhan 3 1.50) ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn fyw wrth iddynt ddigwydd. Fodd bynnag, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cytuno i ddarlledu'r mwyafrif helaeth o gyfarfodydd i gynyddu tryloywder (ac eithrio'r eitemau hynny sy'n gyfrinachol / eithriedig eu natur). Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi na fydd methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn gwneud unrhyw drafodion yn annilys o reidrwydd.
- 19.4. Gan ystyried Adran 46 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd cyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu cynnal fel a ganlyn drwy blatfform cyfarfodydd hybrid y Cyngor yn safonol:

Hybrid	Gweithio o bell
Cyfarfod Blynnyddol	Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr (<i>gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol</i>)
Cyngor Llawn	Pwyllgor Penodiadau Safonau
Cabinet	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Pwyllgor Cynllunio	Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
Governance and Audit Committee	Y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Cyfarfod Blynnyddol y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir Blynnyddol	Pwyllgor Ystâd Deddf yr Eglwys yng Nghymru
Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda	Pwyllgor Ymchwilio
Pwyllgor Craffu Byw'n Dda	Y Pwyllgor Apeliadau
Pwyllgor Craffu Lleodedd	Yr Is-bwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Craffu Adnoddau	Pwyllgor Ymddeoliad Cynnar/ Dileu Swyddi
Craffu ar Berfformiad ar y Cyd	Y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol
Y Pwyllgor Trwyddedu Diogelwch Cyhoeddus	
Y Pwyllgor Trwyddedu Statudol	
Pwyllgor Safonau	

Hybrid	Gweithio o bell
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	

- 19.5. Yn dibynnu ar y cyfranogwyr gweithredol sy'n rhan o gyfarfodydd o bell, gall y Cyngor ddewis defnyddio Microsoft Teams fel platfform cyfarfod ar gyfer y cyfarfod penodol hwnnw. Yn yr achos hwnnw, ni fydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw, ond bydd y recordiad Microsoft Teams yn cael ei lanlwytho i Sianel YouTube y Cyngor yn syth ar ôl y cyfarfod.
- 19.6. Oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol ar y cyd â'r Prif Weithredwr (neu'r dirprwy enwebedig yn eu habsenoldeb) yn penderfynu fel arall, bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnal yn unol â'r tabl uchod (19.4).
- 19.7. Bydd cyfarfodydd yn cael eu darlledu drwy sianel YouTube y Cyngor, a gan ystyried safonau'r Gymraeg, byddant yn cael eu darlledu fel:
- 19.7.1. Iaith y llawr – lle bydd sain y ffrwd yn cael ei gyflwyno yn iaith y llawr yn unig, ac yn caniatáu i unigolion gyfrannu a chael eu clywed naill ai yn Gymraeg neu Saesneg
- 19.7.2. Saesneg yn unig – lle cyflwynir sain y ffrwd yn Saesneg, gyda chyfieithydd yn siarad Saesneg yn ystod rhannau Cymraeg y cyfarfod.

20. Mynychu Cyfarfodydd yn Ddiogel

- 20.1. Dylai cyfranogwyr y cyfarfod sicrhau bod ystyriaeth am eu diogelwch personol ac asesu'n ymarferol risg unrhyw amgylchedd y maent yn dewis ymuno â chyfarfod ohono i sicrhau ei fod yn ddiogel wrth ganiatáu iddynt gael mynediad i'r cyfarfod a chyfrannu ato.
- 20.2. Os nad yw Aelod yn gallu ymuno â chyfarfod yn ddiogel, argymhellir iddynt gyflwyno ymddiheuriadau yn hytrach na cheisio ymuno â chyfarfod mewn modd anniogel. Os yw'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu neu'r Swyddog Cabinet o'r farn bod y dull ymuno yn anniogel (megis gyrru), rhoddir yr hawl i'r swyddog allu tynnu'r unigolyn allan o'r cyfarfod mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.
- 20.3. Mae enghreifftiau o ystyriaethau sy'n ymwneud â diogelwch personol yn cynnwys:

Enghraifft	Ystyriaethau
Ymuno mewn adeilad cyhoeddus	- A yw'r ddyfais yn ddiogel neu a oes risg o ddwyn neu ddifrod? - A yw'r Aelod mewn man ynysig os yw'n ystyried eitem gyfrinachol i

Enghraifft	Ystyriaethau
	sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gadw? • A yw'r man yn rhydd rhag pethau dynnu sylw yn y cefndir ar gyfer y cyfarfod cyfan? • A fydd y lleoliad yn caniatáu ansawdd cysylltiad cyson?
Ymuno drwy ddyfais symudol bersonol	• A yw'r Aelod yn gallu gweld y cyfarfod, gan gynnwys cyflwyniadau, i allu cyfrannu'n llawn? • A yw'r Aelod mewn man ynysig os yw'n ystyried eitem gyfrinachol i sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gadw? • A oes gan yr Aelod gamau lliniaru ar waith i sicrhau bod digon o fatri a signal pe bai cyfarfod yn para am gyfnod sylweddol o amser? • A yw'r Aelod yn ceisio cymryd rhan drwy ddefnyddio dyfais ddi-ddwylo wrth yrru – os felly, sut mae'n cynnal canolbwyntio ar gyfraniadau'r cyfarfod a gyrru? • A fydd y ddyfais yn caniatáu ansawdd cysylltiad cyson?
Ymuno mewn amgylchedd cartref	• A yw'r man yn caniatáu golau ac awyru digonol? • A yw'n eistedd mewn ardal sy'n dda yn ergonomig ac yn cynnal ystum da? • A yw'r ardal yn ynysig os ydych chi'n ystyried gwybodaeth gyfrinachol?

21. Mynychu Cyfarfodydd o Dramor

- 21.1. Bydd Aelodau sy'n dymuno mynychu cyfarfodydd tra byddant Dramor a defnyddio eu dyfeisiau personol eu hunain neu ddyfeisiau Cyngor Bro Morgannwg yn gallu gwneud hynny drwy ddefnyddio cyfleusterau Wi-Fi am ddim gan na fydd y Cyngor yn gallu ad-dalu costau. Fodd bynnag, er mwyn galluogi mynediad i gyfarfodydd ar liniaduron y Fro o dramor, bydd yn ofynnol i Aelodau hysbysu'r Ddesg Gymorth TGCh a/neu'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf bythefnos cyn gadael fel y gellir rhoi'r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith ar y ddyfais mewn pryd.
- 21.2. Pe bai Aelodau'n dymuno cael mynediad i gyfarfodydd gan ddefnyddio ffonau symudol, oherwydd cost galwadau rhyngwladol, ni fyddai'r Cyngor yn gallu ad-dalu costau galwadau i gael mynediad trwy ffonau symudol personol na chorfforaethol.
- 21.3. Ni fydd Adran TGCh na Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn gallu darparu cymorth technegol ar unrhyw ddyfeisiau a gefnogir gan y Cyngor tra byddant dramor.

22. Hysbysiad Preifatrwydd

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

(Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn atodol i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor - gweler dolen iddo isod)

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Mae Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn darparu cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer system Bwyllgorau'r Cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol.

Yn benodol maent yn:

- Trefnu ac amserlennu cyfarfodydd;
- Penderfynu a fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus;
- Cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyfarfod;
- Gwahodd unigolion i fynychu;
- Ymdrin â gohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â busnes y cyfarfod;
- Ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â busnes y cyfarfod;
- Cymryd cofnodion y cyfarfod perthnasol;
- Cyhoeddi papurau agenda a chofnodion;

- Ymdrin ag unrhyw fater arall sy'n berthnasol i fusnes y cyfarfod;
- Trefnu i gadw dogfennau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

Yng nghyd-destun yr hysbysiad hwn mae'r gair cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfarfod y Cyngor;
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Cyngor;
- Pwyllgor Craffu;
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau Craffu;
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Er mwyn hyrwyddo Llywodraeth a Democratiaeth agored mae rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn unol â hynny bydd unrhyw beth a drafodir yn y cyfarfodydd hynny yn gyhoeddus a bydd unrhyw gofnodion, recordiadau neu ddarllediadau yn gyhoeddus hefyd. Fodd bynnag, mae yna rai amgylchiadau lle nad yw'n briodol i faterion gael eu trafod yn gyhoeddus, er enghraifft busnes personol unigolion neu wybodaeth sy'n sensitif yn ariannol / fasnachol. Bydd agenda'r cyfarfod yn egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin.

Yn unol â hynny, os ydych:

- yn cyflwyno gwybodaeth i'w thrafod mewn cyfarfod Pwyllgor; neu
- yn mynd i gyfarfod Pwyllgor er mwyn siarad; neu
- yn cyflwyno dogfennau i Bwyllgor; neu
- yn cyflwyno deisebau i Bwyllgor; neu
- yn cyflwyno sylwadau i Bwyllgor; neu
- yn cyflwyno neu'n darparu dogfennau / deisebau ar ran eraill;

ymdrinnir â'r wybodaeth hon mewn modd agored a chyhoeddus ac eithrio pan nad yw'r cyfarfod neu'r rhan o'r cyfarfod sy'n ei thrafod yn gyfarfod cyhoeddus yn unol â'r darpariaethau eithrio gwybodaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Os ydych yn cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti mae angen i chi sicrhau ei fod yn deall yr uchod a chydsynio i'r wybodaeth gael ei rhoi yn y parth cyhoeddus. Gall y Cyngor ofyn i chi gadarnhau hyn ac efallai na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi ymhellach oni bai ein bod yn fodlon bod trydydd partïon wedi cael gwybod am hyn.

Sut rydym yn casglu gwybodaeth gennych?

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych pan fyddwch yn ymweld â

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx>. Hefyd, pan fyddwch yn cysylltu â ni yn ysgrifenedig, yn siarad â ni ar y ffôn, yn anfon e-bost atom neu'n siarad â ni wyneb yn wyneb.

Pa fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu gennych?

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor brosesu rhan neu gyfan o bob un o'r categorïau gwybodaeth bersonol a ganlyn ynghylch aelodau'r cyhoedd neu aelodau etholedig:

- Enw a theitl;
- Cyfeiriad;
- Rhif cyswllt;
- Cyfeiriad e-bost;
- Sylwadau sy'n ymwneud â busnes y Cyngor;
- Gofynion arbennig er mwyn mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys siarad yn Gymraeg.

Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Yn unol â'n tasgau cyhoeddus mae'r canlynol yn berthnasol:

- I'w defnyddio yn y cyfarfod fel y nodir uchod a lle bo angen bydd enwau a sylwadau a wnaed wedi'u cofnodi yn y cofnodion;
- Wrth gofrestru i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor, bydd manylion aelodau'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor;
- Gellir rhannu unrhyw gofrestriadau i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor ac unrhyw wybodaeth a gyflwynir i gynghorwyr a Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu â Swyddogion y Cyngor a phartneriaid cysylltiedig (e.e. sefydliadau y mae'r Cyngor yn cydweithio â nhw i ddarparu gwasanaethau) i dderbyn eu sylwadau a'u hystyriaeth broffesiynol;
- Gellir cadw unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a ddaw i law ar ffeil er mwyn i'r Cyngor gyfeirio ati yn y dyfodol;
- Galluogi Aelodau neu swyddogion y Cyngor i ymchwilio i neu gynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallech fod wedi'u codi. Hefyd, er mwyn i ni allu rhoi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau;
- Atgyfeirio eich sylwadau cyhoeddus i Bwyllgorau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau;

- Os rhoddir eich caniatâd datganedig, rhannu gydag aelodau eraill o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad er mwyn enwebu siaradwr.

Pwy all weld eich gwybodaeth?

Yn gyffredinol byddwn ond yn rhannu data personol gyda staff Cyngor Bro Morgannwg neu aelodau etholedig y mae ei angen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, os caiff ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn dibynnu ar nifer o eithriadau, sy'n ein caniatáu i rannu gwybodaeth heb fod angen nodi sail gyfreithlon ar gyfer y rhannu a heb fod angen rhoi gwybodaeth i chi am y rhannu.

Seiliau cyfreithiol

Dyma ein **seiliau cyfreithiol** ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol:

- Cydsyniad;
- Os yw'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a freiniwyd ynom;
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu fuddiannau unigolyn arall;
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

Beth yw'ch hawliau o ran y data personol rydym yn ei brosesu?

- **Mynediad** – gallwch ofyn am gopiâu o unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gan y Cyngor.
- **Cywiro** - gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.
- **Dileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol. Gall y Cyngor wrthod dileu gwybodaeth os oes gennym reswm cyfreithiol dros ei chadw.
- **Hygludedd** – gallwch ofyn i ni drosglwyddo eich data personol i wahanol wasanaethau neu atoch chi.
- **Hawl i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu arno** – mae gennych yr hawl i wrthwynebu sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- **Hawl i atal penderfyniadau awtomatig** – mae gennych yr hawl i herio penderfyniad sy'n effeithio arnoch sydd wedi'i wneud yn awtomatig heb ymyrraeth gan fod dynol.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw a dileu'r holl gofnodion yn unol â'n hamserlen cadw cofnodion.

Cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar 01446 709 855 neu democratic@valeofglamorgan.gov.uk i gael mwy o wybodaeth.

Pa fesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei cholli, ei newid neu'i chamddefnyddio?

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu data a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei newid neu ei lygru, a rhag mynediad anawdurdodedig. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig a rheoliadol ar waith i ddiogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch unrhyw wybodaeth rydych yn ei hanfon atom. Rydym yn argymhell eich bod yn cymryd pob cam posib i warchod eich gwybodaeth bersonol.

Darllediadau

Sylwer y bydd rhai o gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu darlledu (fel y nodir ym mharagraff 20.1 uchod) a byddwch yn cael gwybod ar lafar os bydd y cyfarfod rydych yn rhan ohono'n cael ei ddarlledu. Os felly, mae hyn yn golygu eich bod yn cael eich recordio'n weledol ac mewn sain a bod hyn ar gael ar y rhynggrwyd. Gwneir hyn at ddibenion cefnogi a hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a budd y cyhoedd. Byddwn yn cadw'r data am 6 blynedd ac yna'n ei gynnig i'r Archifydd yn Archifdy Morgannwg ar gyfer cadw'n barhaol. Mae gennych hawl i wneud cais i gael mynediad at, i gywiro, i gyfyngu, i wrthwynebu neu i ddileu'r data hwn.

Cwynion

Os hoffech wneud cwyn am y defnydd o'ch data personol gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

Drwy'r post: Uned Rhyddid Gwybodaeth

Swyddfeydd Dinesig,

Heol Holltwn,

Y Barri,

CF63 4RU

Dros y ffôn: 01446 700111.

Drwy e-bost: DPO@valeofglamorgan.gov.uk

I gael cyngor annibynnol ar faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn hon, cysylltwch â:

Gwasanaethau Democrataidd drwy e-bost – Democratic@valeofglamorgan.gov.uk

Cyfeiriad: Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holitwn, Y Barri CF63 4RU

Rhif ffôn: 01446 709855

D.S. Mae'r polisi hwn yn ychwanegol at Reolau Gweithdrefn y Cyngor fel y'u cynhwysir yn y Cyfansoddiad.

23. Cyfeiriadau Gwe

- 23.1. **Canllawiau Statudol ac Anstatudol Prif Gyngorau Cymru – gan gefnogi darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:**
<https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-ar-ddemocratiaeth-o-fewn-prif-gyngorau>
- 23.2. **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:**
<https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents/welsh>
- 23.3. **Gwefan Cyngor Bro Morgannwg:** <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx>
- 23.4. **Cyfansoddiad Cyngor Bro Morgannwg:**
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Constitution/Constitution.aspx
- 23.5. **Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg:**
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx
- 23.6. **Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau Cyngor Bro Morgannwg:**
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes-agendas-and-reports.aspx
- 23.7. **Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001:**
<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2001/2276/contents/welsh>